# Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd: Egwyddorion Llywodraethu a chanllawiau ar gynnal busnes

BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

# Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar y tâl a'r cymorth uniongyrchol a roddir i Aelodau'r Senedd er mwyn denu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol ac i alluogi'r rhai a gaiff eu hethol yn Aelodau i gyflawni eu swyddi yn effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru. Sefydlwyd y Bwrdd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.

# Aelodau'r Bwrdd

- Dr Elizabeth Haywood (Cadeirydd)
- Syr David Hanson
- Mike Redhouse
- Y Fonesig Jane Roberts
- Hugh Widdis

Mae copïau o'r Penderfyniad hwn hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras, sain neu gopi caled gan:

**Clerc Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Taliadau@Senedd.Cymru**

# Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd: Egwyddorion Llywodraethu a chanllawiau ar gynnal busnes

BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

# Cynnwys


1. Cyflwyniad .......... 5
2. Egwyddorion y Bwrdd .......... 6
3. Rolau a Chyfrifoldebau .......... 7
4. Effeithiolrwydd .......... 9
5. Atebolrwydd .......... 11
6. Bod yn agored ac yn dryloyw .......... 12
7. Ymgysylltu .......... 13

Atodiad A: Canllawiau ar Gynnal Busnes. .......... 14

Atodiad B: Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus .......... 19

Atodiad C: Gweithio gyda Chomisiwn y Senedd .......... 20

# Cyflwyniad

1.1 Mae'r Bwrdd Taliadau Annibynnol ('y Bwrdd') yn Fwrdd annibynnol a sefydlwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (ei enw bryd hynny yn 2011). Nod y Bwrdd yw sicrhau bod Aelodau o'r Senedd a deiliaid swyddi'r Senedd yn cael eu talu'n briodol ac yn cael yr adnoddau ariannol angenrheidiol i weithredu'n effeithiol mewn sefydliad seneddol modern.

1.2 Mae Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 ('y Mesur') yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer gwaith y Bwrdd.

1.3 Gall y Bwrdd, o bryd i'w gilydd, ystyried unrhyw fater arall sy'n berthnasol i gyflawni ei swyddogaethau.

1.4 Mae llywodraethu da yn ganolog i allu unrhyw gorff i weithredu'n effeithiol. Nid yw'r Bwrdd yn gorff corfforaethol, ond caiff ei ariannu ag arian cyhoeddus ac mae angen iddo weithredu yn unol ag egwyddorion cydnabyddedig llywodraethu da:

- Arweinyddiaeth - mynegi gweledigaeth glir ar gyfer y Bwrdd a dangos yn eglur sut y mae gweithgareddau'n cyfrannu at gyflawni'r weledigaeth hon, gan gynnwys rheoli risg;
- Effeithiolrwydd - defnyddio amrywiaeth eang o brofiadau perthnasol, gan gynnwys drwy gynnig her gadarn, a gwerthuso perfformiad;
- Atebolrwydd - hyrwyddo tryloywder drwy ddulliau adrodd clir a theg;
- Cynaliadwyedd - ffurfio barn synhwyrol ar gyfer yr hirdymor am yr hyn y mae'r Bwrdd yn ceisio'i gyflawni a'r hyn y mae'n ei wneud i gyrraedd ei nod.

1.5 Mae'r Bwrdd felly wedi penderfynu mabwysiadu'r egwyddorion llywodraethu a'r canllawiau ar gynnal busnes a nodir yn y papur hwn. Gyda'i gilydd, maent yn gwneud yr hyn a ganlyn:

- Rhoi arweiniad i'r Bwrdd ar gyflawni ei swyddogaethau statudol mewn modd sy'n adlewyrchu annibyniaeth, natur agored a chynhwysiant;
- Gosod safonau o ran sut mae'r Bwrdd yn gweithredu; a
- Galluogi'r Bwrdd i gael ei ddwyn i gyfrif.

1.6 Bydd y ddogfen hon yn cael ei hadolygu a'i diwygio yn ôl yr angen yn ôl disgresiwn y Bwrdd, yn unol â chonfensiynau'r Bwrdd ar gyfer gwneud penderfyniadau.

1.7 Gweler Atodiad A ar gyfer "Canllawiau ar gynnal busnes".

# 2. Egwyddorion y Bwrdd

**Arweinyddiaeth**

2.1 Bydd holl Aelodau'r Bwrdd yn dilyn y Saith Egwyddor ar gyfer Bywyd Cyhoeddus a nodir gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ('egwyddorion Nolan'[1] ) gan gynnwys trin eraill â pharch. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i gynnal polisi Urddas a Pharch y Senedd.

2.2 Bydd gwaith y Bwrdd yn cefnogi'r Senedd i ddatblygu atebion yng nghyd-destun Cymru yn bennaf.

2.3 Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i ddarparu adnoddau i ddiwallu anghenion penodol Aelodau ac i ymateb i ofynion y Senedd wrth iddi barhau i ddatblygu. Bydd y system taliadau a lwfansau yn cael ei thargedu i gefnogi diben strategol y Senedd a rôl yr Aelodau yn y broses honno.

2.4 Mae penderfyniadau'r Bwrdd ar gymorth ariannol yn seiliedig ar egwyddorion sydd wedi'u diffinio'n glir:

a) y dylai'r cymorth ariannol a'r taliadau i'r Aelodau gefnogi diben strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Aelodau;

b) rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru;

c) rhaid i'r system cymorth ariannol i Aelodau fod:

- yn gadarn;
- yn glir;
- yn dryloyw;
- yn gynaliadwy;
- yn gynhwysol; ac
- yn cynrychioli gwerth am arian i'r trethdalwr.

[1] Gweler atodiad B

# 3. Rolau a Chyfrifoldebau

**Y Bwrdd Taliadau**

3.1 Nodweddir y berthynas rhwng aelodau'r Bwrdd gan lefel iach o ymddiriedaeth, parch, ewyllys da, egni a pharodrwydd i drafod a chyfathrebu. Bydd y Bwrdd yn gweithredu yn unol â'r egwyddor o gyfrifoldeb ar y cyd.

3.2 Bydd y Bwrdd yn gosod ac yn adolygu ei nodau strategol, yn sicrhau bod y cymorth ariannol a gweinyddol angenrheidiol ar gael gan y Comisiwn i gyflawni ei amcanion ac adolygu ei berfformiad.

3.3 Bydd y Bwrdd yn gyfrifol ar y cyd am roi ei amcanion ar waith yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir ac yn ystyried yr hyn sy'n fuddiol i'r Senedd, gan gydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau statudol.

3.4 Bydd y Bwrdd yn sicrhau ei fod yn gweithredu mewn modd agored a thryloyw ac yn ymateb yn briodol i gwynion am ei brosesau.

**Cadeirydd y Bwrdd**

3.5 Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am arweinyddiaeth y Bwrdd a sicrhau ei fod yn effeithiol ym mhob agwedd ar ei rôl.

3.6 Bydd y Cadeirydd yn cadw trefn ac yn penderfynu ar bob mater o ran arferion a gweithdrefnau, gan weithio'n agos gydag aelodau'r Bwrdd a staff cynorthwyol.

3.7 Bydd y Cadeirydd yn gweithredu ar ran y Bwrdd fel llefarydd a chynrychiolydd. Gall y Cadeirydd ddirprwyo'r cyfrifoldeb hwn.

**Comisiwn y Senedd**

3.8 Bydd y Bwrdd yn cael cymorth o safon uchel gan staff Comisiwn y Senedd.

3.9 Bydd Staff Comisiwn y Senedd yn darparu papurau cynhwysfawr gyda gwybodaeth am bolisïau a gweithdrefnau i hwyluso penderfyniadau ar sail tystiolaeth.

3.10 Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn cefnogi'r Bwrdd i gyflawni ei raglen waith drwy ddarparu cymorth gweithdrefnol, gweinyddol ac ymarferol effeithiol. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn cynghori ac yn cynorthwyo'r Bwrdd i arfer ei rwymedigaethau statudol. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth hefyd yn

hwyluso cyfathrebu effeithiol rhwng y Bwrdd, Aelodau, Staff Cymorth a rhanddeiliaid allweddol eraill.

3.11 Ceir rhagor o wybodaeth am gyfrifoldebau’r Bwrdd a Chomisiwn y Senedd o ran cydweithio yn Atodiad C.

**Cydraddoldeb, Hawliau Dynol a'r Gymraeg**

3.12 Wrth arfer ei swyddogaethau, bydd y Bwrdd yn ystyried yr egwyddor o gyfle cyfartal ac yn ceisio cynnal hawliau dynol ym mhopeth a wna. Bydd hefyd yn gweithredu'r egwyddor, wrth ymdrin â'r cyhoedd, Aelodau, a’u staff, y dylai’r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin yn gyfartal. Bydd y Bwrdd yn cydymffurfio â Safonau Cynllun Iaith Swyddogol Comisiwn y Senedd.

# 4. Effeithiolrwydd

**Cyfarfodydd**

4.1 Bydd y Bwrdd yn cyfarfod yn ddigon rheolaidd i gyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol, ond mae'n debygol mai'r norm fydd 5 neu 6 gwaith y flwyddyn.

4.2 Bydd cyfarfodydd yn hwyluso cyfleoedd i ganiatáu ar gyfer meddwl strategol ac i helpu i gyfrannu at gydlyniant y Bwrdd.

4.3 Mae presenoldeb aelodau'r Bwrdd yn y cyfarfodydd – rhai rhithiol, hybrid ac wyneb yn wyneb – yn hanfodol i'w lwyddiant ac mae disgwyliadau clir o ran eu hymrwymiad i fod yn bresennol.

**Trin gwybodaeth**

4.4 Bydd gan y Bwrdd drefniadau effeithiol ar gyfer rheoli gwybodaeth. Ymdrinnir â'r holl wybodaeth sensitif neu gyfrinachol a gaiff ei gynhyrchu neu sy'n dod i law aelodau'r Bwrdd yn unol â Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth Comisiwn y Senedd.

**Caffael**

4.5 Bydd y Bwrdd yn mabwysiadu arferion gorau ar draws holl feysydd y broses caffael a rheoli contractau. Bydd yr arferion hyn yn cynnwys gwaith gwerthuso rheolaidd i sicrhau gwerth am arian.

**Rheoli risgiau**

4.6 Bydd y Bwrdd yn penderfynu ar natur a lefel y risgiau y mae'n fodlon eu cymryd, yn ddarbodus, er mwyn cyflawni ei amcanion strategol wrth iddo ystyried cynnydd ar ei raglen waith strategol. Darperir gwybodaeth i alluogi'r Bwrdd i asesu a rheoli risgiau fel rhan o'i benderfyniadau.

**Gwerthuso**

4.7 Bydd y Bwrdd yn datblygu ac yn annog amgylchedd lle mae gwerthuso a datblygiad parhaus yn broses fwriadol ac arferol.

4.8 Bydd y gwerthusiad hefyd yn cynnwys ystyried y cymorth a'r gwasanaethau a ddarperir gan yr Ysgrifenyddiaeth a Chomisiwn y Senedd yn gyffredinol.

**Dysgu a Datblygu**

4.9 Bydd y Bwrdd yn asesu ac yn ystyried gofynion dysgu a datblygu'r Bwrdd fel endid ac Aelodau'r Bwrdd fel unigolion gydag adnoddau’n cael eu dyrannu'n unol â hynny.

4.10 Bydd y Bwrdd yn datblygu ac yn cynnal gwaith ymgysylltu â Byrddau Taliadau eraill yn y DU a thramor, lle bo’n briodol, ac yn dysgu oddi wrth sefydliadau perthnasol eraill ac yn cynnal ymwybyddiaeth o ddatblygiadau ehangach ym maes taliadau gwleidyddol.

4.11 Mae’r Bwrdd wedi ymrwymo i wella ei ffyrdd o weithio a pherfformiad aelodau’r Bwrdd yn eu rôl. Bydd y Cadeirydd yn cynnal arfarniadau blynyddol gyda phob aelod. Bydd y Bwrdd yn ceisio adborth ar ei ffyrdd o weithio gan randdeiliaid, gan gynnwys Aelodau o’r Senedd a’u staff, staff Comisiwn y Senedd ac eraill sy’n chwarae rhan o ran rhoi cyngor i'r Bwrdd a mynd i gyfarfodydd.

# 5. Atebolrwydd

5.1 Mae penderfyniadau’r Bwrdd yn derfynol ac nid ydynt yn ddarostyngedig i gadarnhad na chymeradwyaeth Comisiwn y Senedd na’r Senedd.

5.2 Nid yw’r Bwrdd yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd na rheolaeth y Senedd na Chomisiwn y Senedd. Cyfrifoldeb Comisiwn y Senedd yw gweithredu Penderfyniad y Bwrdd.

5.3 Clerc a Phrif Weithredwr y Senedd sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd personol a chyffredinol am y defnydd o’i arian cyhoeddus a gwarchod ei asedau. Ar adegau, felly, mae'n iawn i'r Bwrdd geisio neu dderbyn cyngor gan y Clerc a'r Prif Weithredwr ar faterion allweddol.

5.4 Caiff y Bwrdd gaffael gwasanaethau a chyngor yn annibynnol, ac mae hefyd yn gyfrifol am ei wariant.

5.5 Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i gyflawni ei raglen waith o fewn yr adnoddau sydd eu hangen yn rhesymol arno ac sydd ar gael iddo (gweler Atodiad C – Gweithio gyda Chomisiwn y Senedd).

5.6 Mae’r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i’r Bwrdd weithredu’n gyffredinol mewn modd agored a thryloyw, ymgynghori â’r rhai y mae penderfyniadau’n debygol o effeithio arnynt cyn gwneud y penderfyniadau hynny, a gosod gerbron y Senedd adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau a’i ddefnydd o adnoddau. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i geisio ymgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid.

# 6. Bod yn agored ac yn dryloyw

6.1 Bydd y Bwrdd yn cyfarfod yn breifat ond yn sicrhau ei fod yn agored ac yn dryloyw drwy wneud yr hyn a ganlyn:

- Cyhoeddi gwybodaeth ar wefan y Senedd sy’n galluogi’r cyhoedd i gael y newyddion diweddaraf am ei weithgareddau.
- Gweithredu dull cyson o gyhoeddi deunyddiau perthnasol megis cofnodion cyfarfodydd a chyfathrebu ag Aelodau ynghylch gwaith y Bwrdd.
- Datgan buddiannau perthnasol cyn cymryd rhan yn nhrafodion y Bwrdd, gan gynnwys cyfarfodydd y Bwrdd. Bydd unrhyw fuddiannau a gaiff eu datgan ar gael yn gyhoeddus.

6.2 Bydd y Bwrdd yn gwneud ymdrech fawr i gyfleu ei negeseuon i'r cyhoedd yn gyffredinol yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol mewn modd sy’n galluogi'r rhai sydd â diddordeb i ddeall rôl y Bwrdd, ei Benderfyniad a sut y gallant ymgysylltu â'i waith.

6.3 Mae'n ofynnol i aelodau'r Bwrdd fod yn wleidyddol ddiduedd wrth gyflawni eu swyddogaethau.

6.4 Mae cyfathrebu effeithiol yn elfen hanfodol o waith y Bwrdd fel bod y Bwrdd yn hysbysu'n eraill yn effeithiol ac yn wybodus ei hun.

6.5 Bydd y Bwrdd, ar bob cyfle, yn amlinelllu ei gylch gwaith, ei werthoedd a’i safonau yn glir ac yn sicrhau bod ei rwymedigaethau i’r Senedd ac eraill yn cael eu deall a’u cyflawni.

6.6 Mae’r Bwrdd wedi ymrwymo i ddangos ei fod yn amlwg yn annibynnol ar y Senedd yng ngolwg y cyhoedd.

6.7 Bydd y Bwrdd yn datblygu ymhellach ddull cyfathrebu effeithiol, sy'n nodi ei holl randdeiliaid mewnol ac allanol allweddol ac yn ymgysylltu â hwy i gefnogi ei waith.

# 7. Ymgysylltu

7.1 Mae ymgysylltu da, rheolaidd â rhanddeiliaid yn hanfodol i effeithiolrwydd y Bwrdd. Bydd adolygiadau ac ymgynghoriadau'r Bwrdd yn:

- Gyfranogol;
- Tryloyw; ac yn
- Iteraidd.

7.2 Bydd y Bwrdd yn cyfleu ei gynllun gwaith mewn modd amserol er mwyn hwyluso gwaith ymgysylltu effeithiol yn ei brosesau a'i ymgynghoriadau.

7.3 Bydd y Bwrdd yn ymgynghori â'r rhai y mae ei waith yn debygol o effeithio arnynt, yn unol â'i ddyletswyddau o dan y Mesur, sef:

- Aelodau o'r Senedd;
- staff a gyflogir gan Aelodau o'r Senedd (neu gan grwpiau o Aelodau o'r Senedd);
- undebau llafur perthnasol; ac
- eraill fel y bo'n briodol.

7.4 Yn ogystal â phrosesau ymgynghori ffurfiol, bydd y Bwrdd yn creu cyfleoedd rheolaidd i ymgysylltu ag Aelodau a'u staff. Bydd y Bwrdd yn ymgysylltu'n rheolaidd ag Aelodau o'r Senedd yn unigol a chyda'u cynrychiolwyr drwy amrywiaeth o ddulliau. Mae hyn er mwyn sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau'r Bwrdd ac i ystyried unrhyw bryderon a phroblemau a allai fod gan Aelodau i lywio penderfyniadau'r Bwrdd.

7.5 Yn yr un modd, bydd y Bwrdd yn ymgysylltu'n rheolaidd â Staff Cymorth Aelodau o'r Senedd, gan roi amrywiaeth o gyfleoedd i ymgysylltu â'r Bwrdd yn barhaus. Yn ogystal â'r sianeli ymgysylltu ffurfiol, bydd hyn yn galluogi'r Bwrdd i wrando ar randdeiliaid a datblygu ei ymwybyddiaeth a'i ddealltwriaeth o faterion perthnasol (rhai presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg) y tu allan i'r prosesau ymgynghori ffurfiol.

7.6 Bydd y Bwrdd yn cynnal cyfathrebu a deialog rheolaidd â Chomisiwn y Senedd. Mae hyn i gydnabod pwysigrwydd Comisiwn y Senedd o ran darparu cymorth a gwasanaethau i Aelodau o'r Senedd ac o ran cyd-ddibyniaeth rolau'r ddau gorff.

7.7 O ystyried rôl statudol y Bwrdd mewn perthynas â Chynllun Pensiwn y Senedd, bydd cyfathrebu effeithiol hefyd yn cael ei gynnal rhwng y Bwrdd ac Ymddiriedolwyr Pensiwn y

Senedd fel y nodir mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i’w gytuno gan y Bwrdd a’r Ymddiriedolwyr (a elwir y Bwrdd Pensiynau).

7.8 Bydd hefyd yn bwysig i'r Bwrdd ymgynghori â'r Comisiynydd Safonau lle bo'n briodol, yn enwedig wrth lunio canllawiau ar ddefnydd o adnoddau.

7.9 Dylai pob aelod o’r Bwrdd sicrhau bod y safbwyntiau a fynegir gan unrhyw randdeiliad yn cael eu cyfleu i'r Bwrdd cyfan.

7.10 Bydd y Bwrdd yn sicrhau bod adborth i randdeiliaid a’r rhai sy’n cyfrannu at ymgynghoriadau yn elfen gynhenid o’i waith ymgysylltu.

# Atodiad A - Canllawiau ar Gynnal Busnes

**Cyfarfodydd**

1.1 Bydd cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu cynnal yn Nhŷ Hywel, Bae Caerdydd oni bai bod aelodau'r Bwrdd yn cael gwybod fel arall. Cynhelir y cyfarfodydd yn breifat oni chytunir yn wahanol gan y Bwrdd.

1.2 Bydd y Bwrdd yn penderfynu ar ba mor rheolaidd y cynhelir ei gyfarfodydd, er y bydd fel arfer yn cyfarfod tua phum neu chwe gwaith y flwyddyn.

1.3 Gall y Bwrdd hefyd gyfarfod yn anffurfiol i gasglu tystiolaeth.

**Y Cadeirydd**

1.4 Mae Cadeirydd y Bwrdd yn gyfrifol am yr hyn a ganlyn:

- Gosod yr agenda ar gyfer pob cyfarfod gyda chefnogaeth yr ysgrifenyddiaeth;
- Cadw trefn a sicrhau bod y Bwrdd a'i gynghorwyr yn cael digon o gyfle i fynegi barn ar unrhyw fater sy'n cael ei drafod;
- Penderfynu, yn amodol ar y rheolau hyn, ar bob mater yn ymwneud ag arferion a gweithdrefnau;
- Sicrhau bod penderfyniadau'r Bwrdd yn cael eu mynegi'n glir i grwpiau allweddol yn y cylch gorchwyl;
- Crynhoi'r drafodaeth at ddibenion y cofnodion.

**Cworwm**

1.5 Y cworwm ar gyfer unrhyw gyfarfod ffurfiol yw tri aelod. Ystyrir bod aelod sy'n bresennol drwy fideogynadledda neu delegynadledda yn bresennol.

## Yn bresennol

1.6 Dylai aelodau'r Bwrdd, lle bo'n ymarferol, roi gwybod i’r Ysgrifenyddiaeth ymlaen llaw os na allant fod yn bresennol mewn cyfarfod penodol.

1.7 Pan fydd aelod o’r Bwrdd, am ba bynnag reswm, yn methu â bod yn bresennol mewn cyfarfod, caiff gyflwyno sylwadau ysgrifenedig yn rhoi barn ar unrhyw fater sy’n cael ei drafod.

1.8 Yn ogystal ag aelodau’r Bwrdd, caiff swyddogion eraill Comisiwn y Senedd fod yn bresennol mewn cyfarfodydd fel sy’n ofynnol gan y Cadeirydd.

1.9 Caiff y Bwrdd, os yw'n briodol, wahodd Aelodau unigol i fod yn bresennol ar gyfer cyfarfodydd penodol neu eitemau busnes unigol.

1.10 Pan fo mater, ym marn aelodau’r Bwrdd, yn arbennig o sensitif neu gyfrinachol ei natur, gall y Cadeirydd argymell bod yr eitem yn cael ei hystyried heb swyddogion neu gynghorwyr y Comisiwn.

## Papurau

1.11 Bydd staff Comisiwn y Senedd sy’n cefnogi’r Bwrdd yn paratoi papurau i’w hystyried yn y cyfarfodydd. Bydd papurau drafft yn cael eu hawdurdodi gan y Cadeirydd i'w dosbarthu i weddill y Bwrdd.

1.12 Bydd y tîm Clercio yn dosbarthu papurau’n electronig i aelodau’r Bwrdd drwy e-bost, lle bo’n ymarferol, heb fod yn hwyrach nag un wythnos cyn y cyfarfod. Bydd aelodau’r Bwrdd yn cael gwybod am unrhyw oedi.

1.13 Pan gyhoeddir papur drafft neu adroddiad i holl aelodau'r Bwrdd, dylai nodi'n glir y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau. Rhagdybir os na fydd aelod o'r Bwrdd yn ymateb erbyn y dyddiad cau, y caiff ei ddehongli bod cymeradwyaeth wedi’i rhoi i’r ddogfen ddrafft dan sylw.

1.14 Caiff cofnodion y Bwrdd eu hystyried a chytunir arnynt yn y cyfarfod nesaf a chânt eu cyhoeddi ar dudalennau'r Bwrdd ar wefan y Senedd.

**Penderfyniadau a phleidleisio**

1.15 Aelodau'r Bwrdd yn unig sydd â'r hawl i bleidleisio. Bydd y Cadeirydd yn ceisio dod i gonsensws ar bob penderfyniad lle bo modd.

1.16 Lle nad yw hyn yn bosibl, bydd y Cadeirydd yn galw am bleidlais. Y dull ar gyfer pleidleisio yw drwy godi llaw. Mae'r Cadeirydd yn cadw'r hawl i arfer pleidlais fwrw.

1.17 Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb ar y cyd am ei benderfyniadau.

1.18 Rhaid i benderfyniadau'r Bwrdd ynghylch cyflogau, lwfansau a phensiynau Aelodau a Gweinidogion Cymru (gan gynnwys y Prif Weinidog, y Cwnsler Cyffredinol a dirprwy Weinidogion Cymru) a chymorth i grwpiau plaid gael eu cymeradwyo gan o leiaf dri aelod o'r Bwrdd.

**Datgan buddiannau**

1.19 Rhaid i aelod o'r Bwrdd neu gynghorydd arbenigol ddatgelu'n swyddogol unrhyw fuddiant ariannol mewn unrhyw fater sy'n cael ei ystyried mewn cyfarfod.

1.20 Pan fydd gan aelod o'r Bwrdd fuddiant, ac eithrio buddiant ariannol (e.e. buddiant teuluol), dylid ceisio cyngor ynghylch arwyddocâd y buddiant hwnnw.

1.21 Caiff aelod o'r Bwrdd ofyn am gyngor gan Wasanaethau Cyfreithiol Comisiwn y Senedd mewn perthynas ag unrhyw amgylchiadau penodol y mae'n credu y gallent fod yn fuddiant uniongyrchol neu anuniongyrchol mewn mater cyn cyfarfod.

1.22 Rhaid cofnodi pob datganiad o fuddiant yn y cofnodion.

1.23 Bydd y Bwrdd yn cadw cofrestr o fuddiannau'r aelodau ac yn sicrhau ei bod yn hygyrch ac yn destun adolygiad blynyddol.

## Gohebiaeth

1.24 Y Cadeirydd fydd yn gyfrifol am gymeradwyo a llofnodi'r holl ohebiaeth a datganiadau i'r cyfryngau sy'n mynd allan, oni bai y gofynnir yn benodol am fewnbwn gan aelodau'r Bwrdd.

1.25 Bydd y Cadeirydd yn argymell a ddylai gohebiaeth a geir gan randdeiliaid gael ei hystyried fel papur neu bapur i'w nodi yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

## Diwygiadau i'r Egwyddorion Llywodraethu a Chanllawiau ar Gynnal Busnes

1.26 Caiff y Bwrdd amrywio, dirymu neu ychwanegu at y gweithdrefnau a'r egwyddorion yn yr Egwyddorion Llywodraethu a Chanllawiau mewn cyfarfod lle rhoddwyd rhybudd priodol.

# Atodiad B – Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus

Anhunanoldeb: Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau er lles y cyhoedd yn unig. Ni ddylent wneud penderfyniadau er mwyn iddynt hwy, eu teulu neu eu ffrindiau, elwa'n ariannol neu'n faterol.

Uniondeb: Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus osod eu hunain mewn sefyllfa o ddyled ariannol neu unrhyw ddyled arall i sefydliadau neu unigolion allanol a allai geisio dylanwadu ar y ffordd y maent yn perfformio'u dyletswyddau swyddogol.

Gwrthrychedd: Wrth gyflawni busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrwyon neu fuddiannau, dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau yn ôl haeddiant.

Atebolrwydd: Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt wneud eu hunain yn destun pa bynnag archwiliad sy'n addas i'w swydd.

Bod yn agored: Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod mor agored â phosibl ynghylch yr holl benderfyniadau a gweithrediadau a wneir ganddynt. Dylent roi rhesymau am eu penderfyniadau a pheidio â chyfyngu ar y wybodaeth onid oes angen am hynny er budd ehangach y cyhoedd.

Gonestrwydd: Mae'n ddyletswydd ar ddeiliaid swyddi cyhoeddus i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a dylent gymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro a allai godi mewn modd sy'n diogelu buddiannau cyhoeddus.

Arweinyddiaeth: Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus arddangos yr egwyddorion hyn yn eu hymddygiad eu hunain a thrin eraill â pharch. Dylent fynd ati i hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion yn gadarn a herio ymddygiad gwael lle bynnag y mae'n digwydd.

# Atodia C - Gweithio gyda Chomisiwn y Senedd

1. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ddarparu cymorth ysgrifenyddol ac adnoddau i'r Bwrdd i'w alluogi i weithredu'n effeithiol.

1.1 Bydd y Bwrdd yn gwneud cais am unrhyw adnoddau ychwanegol sydd eu hangen arno gan y Comisiwn yn unol â'i gylch cynllunio cyllideb blynyddol. Bydd y Bwrdd yn darparu gwybodaeth ategol sy'n galluogi'r Comisiwn i asesu pa mor rhesymol yw ei anghenion o ran adnoddau.

2. Mae cyfathrebu a deialog rheolaidd rhwng y Comisiwn a'r Bwrdd Taliadau yn bwysig. Mae hyn er mwyn cydnabod rolau statudol a rhyng-ddibyniaeth y ddau gorff o ran darparu cymorth a gwasanaethau i Aelodau o'r Senedd ac yn bwysig er mwyn hwyluso penderfyniadau effeithiol.

2.1 Cyfrifoldeb y Comisiwn yw gweinyddu Penderfyniad y Bwrdd. Mae swyddogion y Comisiwn yn rheoli sut caiff y Penderfyniad ei gymhwyso ac yn cynghori Aelodau o'r Senedd a'u staff cymorth ar faterion cysylltiedig. Byddant hefyd yn rhoi gwybodaeth i'r Bwrdd ynghylch agweddau perthnasol ar ei waith i helpu i lywio penderfyniadau'r Bwrdd, ac yn cynghori lle bo'n briodol.

2.2 Yn rhinwedd ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Weithredwr a Chlerc yn gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff cyllid ac adnoddau cyhoeddus eu defnyddio a'u gwarchod. Efallai bydd y Bwrdd yn gofyn am gyngor neu'n cael cyngor gan y Swyddog Cyfrifyddu ar faterion sy'n berthnasol i'w ddyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu. Efallai y bydd swyddogion y Comisiwn yn cynghori'r Bwrdd ynghylch fforddiadwyedd pan fydd yn gwneud penderfyniad.

2.3 Bydd y Bwrdd yn gwneud cais ffurfiol am unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen arno y gall y Comisiwn ei ddarparu er mwyn llywio ei benderfyniadau, ar wahân

i’r wybodaeth/data sy'n cael ei choladu'n rheolaidd a'i chyflwyno i'r Bwrdd, drwy ysgrifennu at y Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd.

2.4 Bydd y Bwrdd, drwy ei ysgrifenyddiaeth, yn rhannu unrhyw wybodaeth berthnasol â swyddogion y Comisiwn, fel y bo'n briodol, i'w alluogi i baratoi ei gyllideb ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â Phenderfyniad.